



Capel y Tabernacl, Medi'r 10fed, 2017



Mae croeso arbennig i ymwelwyr a ffrindiau sydd wedi ymuno â ni y bore 'ma. Mae'r oedfa dan ofal Lyn West ac Eirian, gyda Bethan Roberts yn cyfeilio. Keith Rowlands oedd yn croesawu.

Trip Ysgol Sul

Medi 16eg, 2017



£15 y pen
(plant o dan 2 £7.00)
Arfaen orbyn Medi'r 16fed
i Cae'r Rhes neu Lowri Roberts

Y SULIAU NESAF

Medi 17 – Cwrdd Teuluol dan ofal Geraint Rees, Cyfeilio Eleri Roberts,

Medi 24 – y Parchg. Gethin Rhys gyda Wyn Jones yn llywyddu, cyfeilio Eleri Huws, croesawu Gwerfyl a Tomos

Hydref 1af – Sul Pentref Efail Isaf, cyfeilio Bethan

Hydref 8ed – Y Parchg Alan Pickard a Wendy Reynolds,

Hydref 15 – Cwrdd Cynhaeaf gyda'r Ysgol Sul a Huw M Roberts, cyfeilio Sian

Hydref 22 – Emlyn Davies, Lowri Roberts, cyfeilio Rhiannon

Hydref 29 – Y Parchg. Gethin Rhys a Bethan Roberts, cyfeilio Eleri Huws

Diolchiadau

Os digwydd i chi weld **pobl Bethlehem Gwaelod y Garth**, plîs diolchwch iddyn nhw am haf llwyddiannus o rannu oedfaon.

Diolch i'r criw o'r ysgol Sul fu'n trefnu'r **diwrnodau hwyl** dros wyliau'r haf. Nifer dda wedi mwynhau'r amrywiol weithgareddau.

Llongyfarchiadau

i Eleri a Gwilym ar enedigaeth wyres fach. Ddydd Sul 20 Awst, gartref yn Ffynnon Taf, ganed Aria Esyllt, merch i Rhodri ac Emily, a chwaer fach i Elis ac Osian, a Jasmine ac Elijah.

Ffair y Pentref

Roedd partneriaeth dda rhwng y capel a'r neuadd er mwyn cynnal ffair hwyliog ddoe. Cynhelir rownd derfynol 'Oes Gen Ti Dalent?' yn y Capel, nos Sul 17eg am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

Y BANC BWYD

Mae bocs o hyd ym mlaen y capel.

Pwyllgor Gofal

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor gofal bnawn Sul 17eg o Fedi yn y Ganolfan am 5 yr hwyr. Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno â'r grŵp sydd yn gweithio fesul pentref i ddiogelu gofal am ein gilydd a chroesawu pobl newydd i'n plith

Safle'r Capel

Gallwch gysylltu â loan ar 07505 323299. Bwcio: carolinerees2@hotmail.com

CYLCH CADWGAN



Nos Wener 15 Medi 2017 am 8.00pm, un o blant y capel, Prifardd yr Urdd, GWYNFOR DAFYDD, yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf

Cofiwch ymuno gyda Facebook y capel a Cristnogaeth 21 a gwefan Cristnogaeth21
www.cristnogaeth21.cymru

Merched y Tabernacl Dydd Mercher Medi 20



Bydd y **tenor ifanc Rhodri Jones, enillydd Gwobr Ian Stoutzker 2017**, yn cyflwyno rhaglen hyfryd o ganeuon Vaughan-Williams, Strauss a hefyd ffefrynnau Cymreig.

Cwrdd yn y Coleg Cerdd a Drama am 11.45 i gael coffi a chlonc cyn y gyngerdd sy'n dechrau am 1.15 ac yn gorffen am 2 o'r gloch.



Does dim casgliad dillad ar gyfer Adref ar hyn o bryd, ond mae'r elusen yn chwilio am sachau cysgu a nwyddau hylendid i bobl ddigartref yn ardal Pontypridd. Os gallwch helpu, mae croeso i chi adael bagiau yn llofft y capel. Mae Adref bob amser yn hapus i dderbyn manion fel ornaments a thrugareddau eraill ar gyfer eu siop, a gallwch adael y rheiny yn llofft y capel hefyd.

Cofiwch am y wefan, www.tabernacl.org ac os hoffech chi ragor o wybodaeth am unrhyw agwedd, cysylltwch â:

Gwilym Huws: 07710 237327

gehpengwern@yahoo.co.uk

Cyhoeddiadau:

geraintrees@hotmail.com